# Atodiad C i Adroddiad Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd

## Bywgraffiadau Aelodau'r Tasglu.

**Cadeirydd y Tasglu:**

**Y Cyng. Saeed Ebrahim**

Mae'r Cynghorydd Ebrahim wedi bod yn Gynghorydd Ward Butetown ers 2017. Mae gan y Cynghorydd Ebrahim radd BA mewn Ieuenctid a Chymunedau a gweithiodd fel Swyddog Addysg Gymunedol i Wasanaeth Ieuenctid Caerdydd o 2005-2016. Fel rhan o'r rôl hon, bu'n rheoli Clwb Ieuenctid Waterhall ac yna Pafiliwn Ieuenctid Butetown. Drwy gydol y cyfnod hwn, bu'n gweithio i feithrin talent a diwylliant o gynhwysiant, yn ogystal â gweithio gyda'r rhai a oedd yn aml yn teimlo eu bod wedi'u heithrio neu eu hynysu o chwaraeon oherwydd diwylliant, ffydd a rhwystrau crefyddol. O 2016-2017 bu'r Cynghorydd Ebrahim yn gweithio i dîm PREVENT Cyngor Caerdydd, gan ymgysylltu â phobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio, i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol.

Mae gan y Cynghorydd Ebrahim ddealltwriaeth ddofn o boblogaethau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig cymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau ymylol eraill. Cymerodd y Cynghorydd Ebrahim ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yn gynnar yn ei yrfa, a thrwy hyn dechreuodd gymryd rhan mewn prosesau a phwyllgorau craffu, gan ddatblygu sgiliau dadl a hyder i herio safbwyntiau gwrthgyferbyniol, a chynrychioli ei gymuned yn angerddol yn effeithiol. O fewn ei yrfa wleidyddol, cadeiriodd y Cynghorydd Ebrahim grŵp gorchwyl a gorffen a archwiliodd ymddygiad gwrthgymdeithasol, delio â chyffuriau a throseddau eraill, a'r effaith y mae'r gweithgareddau hyn yn ei chael ar gymunedau Caerdydd. Mae'r Cynghorydd Ebrahim wedi cadeirio'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol rhwng 2020 a 2022.

**Aelodau'r Tasglu:**

**Eshaan Rajesh:**

Mae Eshaan yn ddisgybl Blwyddyn 12 sydd wrthi'n astudio yn Ysgol Uwchradd Fitzalan ac yn aelod gweithgar o sbectrwm cynhwysfawr o gyrff sefydliadol fel Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant, Bwrdd Cynghori Plant a Phobl Ifanc, a Chreawdwyr Ifanc ac ati. Fe'i hetholwyd hefyd yn Is-gadeirydd ac yn Aelod Gweithredol o Gyngor Ieuenctid Caerdydd (CIC). Cafodd Eshaan ei eni a'i fagu yn Ne India cyn cyrraedd y DU ym mis Awst 2013. Mae Eshaan yn ystyried ei hun yn ddinesydd byd-eang, sy'n mwynhau cwrdd a gwneud ffrindiau newydd o bob cefndir. Mae'n credu bod rhaid i ni, fel dinasyddion byd-eang moesegol a gwybodus, herio anghydraddoldeb hiliol a gwahaniaethu yn ein cymdeithas ôl-fodern i hyrwyddo rhyddid a chyfiawnder.

**Y Cynghorydd Dan De'Ath:**

Mae'r Cynghorydd De'Ath yn Gynghorydd ar Gyngor Caerdydd ac mae wedi cynrychioli ardal Plasnewydd (sy’n cael ei hadnabod fel y Rhath hefyd) yng Nghaerdydd ers 2012. Mae’r Cynghorydd De’Ath wedi gwasanaethu fel Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion y Cyngor sy’n archwilio darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Diogelwch Cymunedol yr awdurdod lleol ynghyd â materion fel digartrefedd a diwygio lles. Yn 2014 ymunodd y Cynghorydd De’Ath â’r Cabinet i wasanaethu fel Aelod Cabinet dros y Blynyddoedd Cynnar, Plant a Theuluoedd ac yna, ar ôl ad-drefnu’r Cabinet, daeth yn Aelod Cabinet dros Ddiogelwch, Ymgysylltu a Democratiaeth. Ar ôl etholiadau 2017 daeth y Cynghorydd De'Ath yn Ddirprwy Arglwydd Faer Caerdydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2017/18. Yn ddiweddarach, daeth yn 115ed Arglwydd Faer Caerdydd a’r Arglwydd Faer cyntaf yn hanes ein dinas nad oedd yn wyn, yn ogystal â’r Arglwydd Faer cyntaf yng Nghymru gyfan o dreftadaeth Affro-Caribïaidd. Gwasanaethodd y Cynghorydd De'Ath yn y rôl am 18 mis ar ôl i'r cyfnod arferol o flwyddyn gael ei ymestyn oherwydd argyfwng Covid 19. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd arweiniodd alwadau am dynnu cerflun perchennog caethweision Syr Thomas Picton o Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd a siarad yn eang am faterion sy'n gysylltiedig â’r mudiad Mae Bywydau Du O Bwys.

**Najma Hashi:**

Mae Najma yn gweithio i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru ac mae ganddi radd mewn Cysylltiadau Rhyngwladol a gradd ôl-raddedig mewn Diwylliant, Alltudiaethau ac Ethnigrwydd.

Mae Najma wedi bod yn ymwneud â herio anghydraddoldebau yng Nghaerdydd o oedran ifanc, drwy amrywiaeth o brosiectau, ac mae ganddi brofiad o weithio ar bolisïau cymdeithasol, yn benodol o ran cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae Najma yn frwd iawn dros fentrau cydraddoldeb hiliol, yn enwedig yng Nghymru. Gyda chefndir mewn gwleidyddiaeth, diwylliant a hawliau dynol, mae Najma yn gobeithio creu dinas fwy cyfartal a theg drwy weithio gyda'r Tasglu. Mae Najma yn credu bod amlddiwylliannaeth Caerdydd yn hynod ddiddorol, ac yn rhywbeth y dylid ei defnyddio'n well i ddod â chymunedau at ei gilydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol yn y ddinas.

**Daniel Mapatac:**

Mae Daniel yn fyfyriwr israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn wreiddiol o'r Philipinau, symudodd Daniel i ogledd Cymru yn dair oed cyn symud i Gaerdydd yn 2016 i astudio Cemeg yn y brifysgol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Daniel wedi bod yn rhan allweddol o’r gymuned myfyrwyr fel Seneddwr Myfyrwyr, Cynrychiolydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr (NUS) ac Aelod Gweithredol o wasanaethau Cyngor a Lles Myfyrwyr, yn ogystal ag yn aelod o fwrdd ieuenctid Elusen Genedlaethol Plant. Ymunodd Daniel â'r Tasglu gan ei fod yn credu bod llawer o faterion cymunedol sydd angen mynd i’r afael â nhw a’u gwella o hyd. Mae Daniel am gyfrannu ei brofiadau o dyfu i fyny a llywio drwy gymdeithas Cymru fel person o liw, a helpu i greu newid ystyrlon sy'n cael ei adlewyrchu yn y gymuned.

**Keithley Wilkinson:**
Ynghyd ag ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb hiliol, mae gan Keithley wybodaeth a phrofiad helaeth yn y maes hefyd drwy ei swydd bresennol fel Rheolwr Cydraddoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a swyddi blaenorol ym maes addysg. Rhan o'i rôl bresennol yw sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys nodwedd warchodedig hil wrth ddarparu gwasanaethau a chyflogaeth yn ogystal â bodloni rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Keithley yw awdur Cynllun Cydraddoldeb Strategol y sefydliad, sy'n cynnwys amcanion sy'n ymwneud â hil yn dilyn ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu. Mae Keithley yn unigolyn uchel ei barch, brwdfrydig ac ymroddedig sy'n meddu ar agwedd gadarnhaol at waith a'r awydd i gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas.

**Catherine Floyd:**
Mae gan Catherine gymhwyster lefel Meistr mewn Iechyd y Cyhoedd, sy'n cwmpasu penderfynyddion allweddol iechyd, gan gynnwys hil. Mae Catherine, yn ei rôl fel nyrs ac ymgynghorydd iechyd y cyhoedd, yn awyddus i sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn deg, yn rymusol, yn effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gynhwysol. Mae'n credu bod ymgorffori ffocws penodol ar ethnigrwydd yn bwysig o fewn gwaith anghydraddoldebau iechyd oherwydd bod gan hunaniaethau ethnig oblygiadau iechyd sy'n annibynnol ar ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill. Mae Catherine wedi ymrwymo i gryfhau'r gwaith sy'n mynd rhagddo gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig lleol a'u harweinwyr cymunedol i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae Catherine yn credu bod gan Gaerdydd ymagwedd gryf tuag at weithio mewn partneriaeth ar amrywiaeth o faterion iechyd y cyhoedd ac y byddai'n awyddus i ymestyn hyn ym maes gwahaniaethu ar sail hil a chydraddoldeb hiliol.

**Anita Naoko Pilgrim:**
Mae Anita yn ddarlithydd cysylltiol yn y Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac yn addysgu modiwlau lefel Meistr mewn addysg gynhwysol. Mae hi'n un o awduron y cyrsiau byr newydd ar addysg ar-lein gynhwysol a dad-drefedigaethu'r cwricwlwm. Mae hi wedi addysgu cyrsiau ar hil, ethnigrwydd, cydraddoldeb, amrywiaeth a pholisi cymdeithasol mewn prifysgolion ledled Cymru a Lloegr hefyd. Mae gan Anita ddealltwriaeth arbenigol o'r croestoriad cymhleth o rywioldeb, rhyw, crefydd a hil. Mae hi wedi gweithio ar nifer o adolygiadau ac adroddiadau cenedlaethol (Cymreig) a llywodraeth leol ar addysg a chydraddoldeb, gan gynnwys adolygiad o addysg a chydraddoldeb yng Nghymru ar gyfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan, astudiaeth ar hiliaeth mewn ysgolion ar gyfer Achub y Plant Cymru, adolygiad o faterion hil yn Ne Orllewin Lloegr ar gyfer Rhwydwaith y De-orllewin Du, a gwerthuso prosiectau'r Gronfa Blant ym Mwrdeistref Lambeth yn Llundain.

**Asmut Price:**
Yn 2008, daeth Asmut yn hyrwyddwr cydraddoldebau yng Nghyngor Caerdydd, a chwaraeodd ran weithredol mewn nifer o ddigwyddiadau hyfforddi, cynadleddau a chyfarfodydd yn

ymwneud â chydraddoldeb hiliol. Ar hyn o bryd, Asmut yw Cadeirydd Rhwydwaith Gweithwyr BAME y Cyngor. Mae hyn wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth iddi o wahaniaethu ar sail hil a'r rhwystrau y mae hyn yn eu cyflwyno yn y gweithle, ac mae Asmut yn rhoi cymorth i gydweithwyr mewn achosion o wahaniaethu gan gynnwys ymchwiliadau ffurfiol. Gan mai Caerdydd yw prifddinas Cymru, mae Asmut yn teimlo y dylai fod yn arwain y ffordd ac yn meithrin perthynas dda mewn cymunedau i'w gwneud yn deg ac yn gynhwysol. Mae gan Asmut brofiad uniongyrchol o wahaniaethu ar sail hil, ac mae'n teimlo bod hyn wedi rhoi dealltwriaeth ragorol iddi o'r mathau o wahaniaethu hiliol y gallai dinasyddion Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Caerdydd eu hwynebu, gan gynnwys effaith ymddygiad hiliol.

**Emma Wools**

Mae gan Emma 20 mlynedd o brofiad o weithio yn y sector cyhoeddus ac roedd ganddi amrywiaeth o swyddi ar lefel uwch yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Dros y 4 blynedd diwethaf mae Emma wedi bod yn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru. Fel uwch arweinydd ym maes Plismona a Chyfiawnder Troseddol, mae Emma wedi ymrwymo i Gydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn enwedig wrth fynd i'r afael â mater gwirioneddol anghydraddoldeb hiliol ym mhob rhan o'r system. Fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, mae Emma yn arweinydd ar y cyd, ochr yn ochr â'r Dirprwy Brif Gwnstabl dros Gydraddoldeb Hiliol yn Heddlu De Cymru, gyda'r cyfrifoldeb am ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar wella dealltwriaeth o faterion y mae Pobl Dduon a chymunedau Lleiafrifoedd Ethnig eraill ledled de Cymru yn eu hwynebu, drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â'n gweithlu a grwpiau cymunedol, gan fynd i'r afael â natur anghymesur o ran ethnigrwydd meysydd fel stopio a chwilio a defnyddio grym, ynghyd â gwella cynrychiolaeth y gweithlu ar bob lefel. Ar ôl byw yng Nghaerdydd drwy gydol ei hoes, hoffai Emma weld y ddinas yn datblygu ymhellach i arwain y blaen ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Hilary Brown**

Hilary yw Prif Swyddog Gweithredol yr unig Strwythurau Busnes Amgen (ABS) dan berchnogaeth ac arweiniad Pobl Dduon sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n gweithredu fel BBaCh. Mae Hilary hefyd yn Gadeirydd Canolfan Gymunedol Butetown sydd wedi'i lleoli yn un o'r cymunedau mudwyr sefydlog hynaf yn y DU ac mae'r ganolfan yn chwarae rhan ganolog mewn ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned. Mae gan Hilary ddiddordeb brwd mewn gweithio mewn amgylcheddau gwirfoddol, busnes a phreifat amrywiol a datblygu arferion da a phrotocolau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb Hiliol, ynghyd â gwybodaeth helaeth am y materion hyn. Yn ogystal, mae Hilary yn ymarferydd cyfreithiol sy'n arbenigo ar hyn o bryd mewn Lloches, Mewnfudo, Hawliau Dynol a Gwahaniaethu ar Sail Hil ac mae’n credu bod ganddi'r wybodaeth a'r sgiliau i nodi achosion o wahaniaethu hiliol ac i archwilio datrysiadau yn gyfreithiol yn ogystal ag yn ymarferol.

**Yusef Jama**

Mae rolau Yusef yn y Fasnach Dacsis ac fel Ysgrifennydd Cangen Unite yn cynnwys meithrin perthynas waith gydag adrannau amrywiol o fewn yr Awdurdod Lleol ac Adran Trwyddedu Tacsis Llywodraeth Cymru. Mae'r berthynas hon wedi caniatáu iddo fynd i'r afael â phryderon yn gyflym a sicrhau ymgynghori cynnar sy'n ystyriol o natur BAME y diwydiant. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mewn polisi drwy orfodi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae Yusef yn ymwybodol o faterion yn y fasnach tacsis sy'n cael eu dylanwadu'n drwm gan hil, ond hefyd gan statws cyflogaeth, dosbarth cymdeithasol a rhwystrau ieithyddol gan fod llawer o'r gyrwyr wedi mabwysiadu Saesneg fel ail iaith a dim ond yn gwybod yr iaith sylfaenol sydd ei hangen i gyfathrebu. Cyn dod yn Ysgrifennydd Cangen Unite, roedd Yusef yn osgoi ymgyrchu, gan deimlo nad oedd ganddo'r gallu i fynegi ei syniadau mewn ffordd y gellid eu deall gan bobl ag awdurdod a’r rhai mewn swyddi uwch. Mae Yusef yn teimlo’n angerddol dros waith ieuenctid ac yn awyddus i droi pobl ifanc yn ei gymuned i ffwrdd o gangiau a'r system gyfiawnder. Mae'r rhagfarnau y mae Yusef wedi'u hwynebu wrth dyfu i fyny ac yn parhau i’w hwynebu yr un fath â'r rhai y mae plant ifanc o gefndiroedd dosbarth gweithiol sy’n cael eu tangynrychioli yn byw ynddynt heddiw. Mae sylweddoli cyn lleied sydd wedi newid yn yr holl flynyddoedd hynny wedi annog Yusef i gymryd rhan yng ngwaith pwysig y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol.

**Yaina Samuels**

Yaina yw sylfaenydd NuHi Training, enillydd Gwobr Dewi Sant (y person du cyntaf i ennill y wobr hon), rheolwr cymwysedig, mentor ac ymgyrchydd adfer byd-eang arobryn. Mae Yaina wedi gweithio yn y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus yn darparu gwasanaethau i grwpiau ymylol ym meysydd tai, iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Mae gwaith Yaina wedi'i ategu gan ei gwybodaeth helaeth am gydraddoldeb hiliol a’i hymrwymiad iddo. Yn ystod gyrfa amrywiol Yaina dros 35 mlynedd, mae wedi cymryd rhan mewn llawer o 'sgyrsiau am newid' sydd wedi arwain at ddim newid. Fel menyw ddu a gafodd ei geni a'i magu yng Nghymru, mae Yaina yn teimlo bod ganddi lawer i'w gynnig wrth yrru’r fenter hon y mae mawr ei hangen yn ei blaen ac mae'n ystyried ei hun yn rhywun all gyflawni newid ac yn ddylanwadwr cadarnhaol.

**Salah Mohamed**

Graddiodd Salah o gyfadran economeg ac astudiaethau cymdeithasol, Prifysgol Khartoum, y Swdan ym 1975. Ymunodd Salah â'r Gwasanaeth Sifil yn y Swdan (1976-1993) a gweithiodd yn y swydd ail uchaf bryd hynny fel dirprwy brif is-ysgrifennydd/Cyfarwyddwr ar gyfer cydweithredu economaidd dwyochrog yn y weinyddiaeth Cyllid a Chynllunio Economaidd, cyn ffoi o'r wlad ym 1993. Yng Nghymru, mae Salah’n sylfaenedd, yn gyd-sylfaenydd ac yn ymddiriedolwr ar lawer o gyrff a mudiadau gwirfoddol. Bu Salah hefyd yn gweithio i Gyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) am fwy nag ugain mlynedd, ac yn Brif Swyddog Gweithredol arno cyn ymddeol. Yn rhan o’i rôl gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, bu’n rhoi cyngor a chymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn eu hymdrechion i geisio lloches yng Nghymru, a sicrhau eu bod yn profi’r hawliau a oedd wedi'u hymgorffori mewn confensiynau, protocolau a statudau rhyngwladol a lleol. Mae Salah wedi cael profiad uniongyrchol o fynd drwy’r broses ceisio

lloches yn y DU. Mae Salah yn gobeithio y bydd y Tasglu hwn a mudiadau fel Mae Bywydau Du o Bwys yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i hyrwyddo'r agenda ar gyfer materion cydraddoldeb hiliol.

**Marcus Walters**

Mae Marcus yn gyfreithiwr gyda Burges Salmon LLP, lle mae'n Gyfarwyddwr yn y Tîm Prosiectau. Cyn dechrau ei yrfa yn y gyfraith, astudiodd Marcus Gemeg yn UCL lle cwblhaodd doethuriaeth yn y pwnc hefyd. Mae Marcus yn un o ymddiriedolwyr Rhwydwaith y De-orllewin Du (BSWN) a hefyd yn Gomisiynydd yn y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ym Mryste, sydd wedi rhoi'r ddealltwriaeth fanwl iddo o'r meysydd polisi penodol sy'n effeithio ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig ym Mryste a thu hwnt. Marcus yw cadeirydd Rhwydwaith BAME yn ei gwmni ac mae wedi gwneud llawer o waith gyda chymunedau a sefydliadau lleiafrifoedd ethnig ym Mryste, sydd â phrofiadau tebyg iawn i'r rhai yng Nghaerdydd.Mae Marcus am ddylanwadu ar bolisi ac mae'n eirioli dros anghenion a chynrychiolaeth cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae Marcus yn frwd ac yn eirioli dros gydraddoldeb hiliol, cyfiawnder hiliol a chyfle cyfartal ym hob agwedd ar ei fywyd.